# YMUNWCH Â NI

## Dirprwy Brif Swyddog Tân

# PECYN GWYBODAETH I YMGEISWYR

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

RAISING AWARENESS - REDUCING RISK

# PWY YDYM NI

## DEWRDER I WEITHREDU, TRUGAREDD I OFALU

Ni yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a’n gweledigaeth, ein cenhadaeth a’n gwerthoedd sy’n gyrru ac yn cymell ein pobl i wneud de Cymru’n fwy diogel, drwy leihau risg. Ein nod yw amddiffyn a gofalu am y 10 Awdurdod Unedol sy'n creu ein hardal amrywiaethol trwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr gwasanaethau rheng flaen eraill

Rydym yn cyflogi tua 1700 o bobl ar draws De Cymru mewn cymysgedd o rolau Gweithredol a Chorfforaethol, gyda’r rhan fwyaf o’n staff corfforaethol wedi’u lleoli yn ein pencadlys yn Llantrisant.

Cefnogir y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir gan Staff Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan nifer o dimau, sy'n cyflawni rolau gweinyddol a thechnegol. Mae Staff Gweithredol a Chorfforaethol yn cydweithio'n agos i ddarparu lefel uchel o wasanaeth i gymunedau De Cymru

Mae Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Thegwch yn flaenoriaeth i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac mae gennym ymrwymiad i ymdrechu i adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

### Ein gweledigaeth

Cydweithio fel un tîm i fod yn Wasanaeth Tân ac Achub rhagorol, gan amddiffyn De Cymru heddiw, ac arloesi’n uchelgeisiol ar gyfer yfory.

### Ein cenhadaeth

Gwasanaethu ein cymunedau, trwy leihau risg ac ymateb i argyfyngau.

### Ein gwerthoedd

Datblygwyd ein gwerthoedd yn dilyn ymghoriad helaeth â’n pobl. Maent yn darparu’r fframwaith gytunedig I **NI** allu gwasanaethu ac amddiffyn **EIN** cymunedau’n effeithiol yn Ne Cymru. Dyma nhw: **Tosturi, Dewrder, Parch, Uniondeb** a **Rhagoriaeth**.

- Rydmyn yn gweithredu gyda **thosturi**
- Rydym yn defnyddio **dewrder** maesegol a chorfforol wrth ymdrin â sefyllfaeoedd
- Rydym yn **parchu** ein gilydd, ein partneriaid a’r cyhoedd yr ydym yn eu gwasanaethu
- Rydym yn gweithredu gydag **uniondeb**
- Rydym yn anelu at **ragoriaeth** ym mhopeth a wnawn

# CYFLWYNIAD

Diolch am fynegi diddordeb yn rôl Dirprwy Brif Swyddog Tân gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Rydym yn edrych i lenwi un swydd wag yn barhaol ac mae rhagor o fanylion yn y pecyn hwn.

Rydym yn edrych i benodi unigolyn â hanes profedig o arweinyddiaeth gref a chynhwysol. Bydd gennych sgiliau cyfathrebu rhagorol, a'r gallu i feithrin a rheoli cydberthnasau cryf ar draws grŵp eang o randdeiliaid yn ogystal â bod yn hyrwyddwr dros y Gwasanaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn chwarae rhan bwysig wrth wella diwylliant a gwerthoedd y Gwasanaeth Tân ac Achub drwy ymgysylltu â'n pobl a'u hysbrydoli, er mwn iddynt gyflawni ein huchelgais o ddarparu rhagoriaeth gwasanaeth ledled De Cymru. Byddwch bob amser yn dangos y safonau proffesiynoldeb uchaf.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub (GTA) mwyaf, mwyaf llwyddiannus, sy’n perfformio orau yn y DU, gan wasanaethu 1.6 miliwn o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol sy'n ymestyn o Ben-y-bont ar Ogwr i Fynwy ac o Fae Caerdydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Rydym am adeiladu enw da rhagorol wrth ddarparu ein gwasanaethau gan gynnwys ymateb i ddigwyddiadau brys a gwella ein hystod o fentrau ataliol. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi ymrwymo i wneud ein cymunedau y lleoedd mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld â nhw, trwy ganolbwyntio ar ddiogelu cymunedau, denu a datblygu ein pobl, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, a chyflawni gwelliant sefydliadol.

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth yn ceisio penodi Dirprwy Brif Swyddog Tân a fydd yn dangos dull brwdfrydig ac arloesol o arwain ardal Gwasanaeth fawr, wrth gynnal gwerthoedd ein Gwasanaeth:

**TRUGAREDD DEWRDER PARCH UNIONDEB RHAGORIAETH**

Bydd y rôl yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd llwyddiannus wella diwylliant a gwerthoedd y Gwasanaeth drwy ddarparu arweinyddiaeth strategol effeithiol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyfrannu at lunio'r gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol i'n cymunedau ledled De Cymru drwy gydweithio cryf, gwneud penderfyniadau clir ac adeiladu yn ogystal â chynnal diwylliant perfformiad uchel. Bydd hyn yn ei dro yn cefnogi datblygiad rôl y Gwasanaeth o fewn cyd-destun ehangach isadeiledd y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a gweddill y DU.

# PROFFIL Y SWYDD

Rydym yn chwilio am arweinydd strategol gyda hanes cryf profedig o arweinyddiaeth weladwy a thrawsnewidiol o fewn amgylchedd deinamig. Mae gallu cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol yn allweddol ynghyd â phrofiad eang ac amrywiol. Bydd angen i ddarpar ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth drylwyr o swyddogaethau'r Gwasanaeth Tân ac Achub a'r materion sy'n wynebu'r Gwasanaeth yng Nghymru a'r DU.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â'r Gwasanaeth wrth i ni barhau â'n rhaglen o newid diwylliannol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn chwarae rhan allweddol wrth weithredu'r argymhellion adroddiad HMICFRS a gyhoeddwyd yn ddiweddar, adolygiad Fenella Morris CB ac adroddiadau'r Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub.

Bydd sgiliau cryf ar gyfer cynllunio, trefnu ac ymgysylltu â phobl yn hollbwysig, yn ogystal â sgoliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i feithrin cydberthnasau cryf a sgiliau rhwydweithio. Bydd hyn yn hanfodol i gynnal cyfarwyddiaeth effeithiol, cynghori'r Prif Swyddog Tân a'r Comisiynwyr ar lefel strategol a chefnogi cydweithio â Llywodraeth Cymru, gwasanaethau tân ac achub eraill a sefydliadau partner.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn mwynhau gyrfa o fewn sefydliad blaengar, gan arwain adrannau cymhleth sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymunedau De Cymru bob dydd.

**Disgwylir i ymgeiswyr sefydlu canolfan leol wrth ddarparu gorchudd gweithredol, er nad oes angen preswylio'n llawn amser yn yr ardal. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd yn dewis symud yn barhaol, bydd cymorth symud ar gael.**

## Gwybodaeth Bellach:

I gael trafodaeth anffurfiol am y rôl hon, mae croeso i chi gysylltu â'r Prif Swyddog Tân, Fin Monahan ar 01443 232000.

- **Contract:** Llyfr Aur
- **Gradd**: Dirprwy Brid Swyddog Tân
- **Cyflog:** £139,729 (codiad cyflog yn yr arfaeth) Gyda mynediad i gynllun car prydles Gwasanaeth a Chynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân
- **Oriau Gwaith**: System Dyletswydd Rota Gorchymyn Aur (Dyletswydd Barhaus) Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio oriau anghymdeithasol. Mae'n debygol y bydd yr amgylchiadau a'r trefniadau gwaith yn cynnwys bod ar gael y tu hwnt i oriau gwaith arferol am gyfnodau estynedig.
- **Lleoliad:** Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX neu unrhyw un o leoliadau eraill y Gwasanaeth. Mae'r swydd hon yn cynnwys teithio ledled ardal y Gwasanaeth, Cymru a lleoliadau eraill. Rhaid bod yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu teithio.

# SWYDD-DDISGRIFIAD

**Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth**

## Prif bwrpas y swydd

Bydd y Dirprwy Brif Swyddog Tân (DPST) yn adrodd i'r Prif Swyddog Tân (PST) ac yn ei gefnogi wrth arwain y Gwasanaeth. Fel aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, byddant yn cynorthwyo'r PST i greu sefydliad perfformio uchel, gan gynnwys diwylliant sy'n meithrin ymddiriedaeth a hyder trwy ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon.

Bydd y DPST yn uniongyrchol gyfrifol am reoli'r Gwasanaeth o ddydd i ddydd gan gynnwys bod y gyfrifol am y rhaglen drawsnewid, darparu gwasanaethau a gwasanaethau corfforaethol.

## Prif Gyfrifoldebau:

**Dyletswyddau Cyffredinol:**

1. Bod yn llefarydd ar gyfer y Prif Swyddog Tân, gan ddirprwyo ar ei ran mewn cyfarfodydd a digwyddiadau neu pan nad yw'r Prif Swyddog Tân ar gael.

2. Cefnogi'r Prif Swyddog Tân i osod cyflymder y sefydliad, gan ddarparu a hyrwyddo arweinyddiaeth glir, gyson, weladwy iawn a dilys ar draws y Gwasanaeth, gan feithrin diwylliant o ymddiriedaeth, perfformiad uchel, arloesedd a gwelliant parhaus.

3. Bod yn gyfrifol am holl agweddau ar ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys gweithredu:
   - Adroddiad Morris,
   - yr adolygiadau thematig:
     - Ehangu rôl diffoddwyr tân yng Nghymru,
     - Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru: Dysgu o Grenfell,
     - Archwilio Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb i danau mewn anheddau
     - Adolygiad Thematig o hyfforddiant gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru
   - Adolygiad HMICFRS,

   gan sicrhau bod yr holl dargedau a nodau perthnasol yn cael eu cyflawni.

4. Bod yn aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, yn darparu arweinyddiaeth strategol ar amrywiaeth o faterion.

5. Arwain a sicrhau bod gwasanaethau ymateb brys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cael eu darparu'n effeithiol.

6. Rhoi'r cyngor a'r wybodaeth sydd eu hangen ar Aelodau'r Awdurdod Tân/Comisiynwyr, gan roi sicrwydd ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys llywodraethu, darparu gwasanaethau a newid trawsnewidiol.

7. Cynnal argaeledd at ddibenion rheoli gweithredol strategol yn unol â rota'r Gorchymyn Aur ac ymateb i ddigwyddiadau gweithredol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth.

8. Bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant er mwyn i holl aelodau'r Gwasanaeth a'r Gymuned a wasanaethwn gael ymgysylltiad cadarnhaol â ni, gyda phob aelod o'n sefydliad yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u cynnwys.

9. Sicrhau bod Strategaeth Parhad Busnes, fframwaith a chyfundrefn ar gyfer profi ar waith ac yn cael eu cymhwyso.

10. Sicrhau llywodraethu corfforaethol effeithiol y Gwasanaeth. Sicrhau bod cyllidebau ac adnoddau'n cael eu defnyddio i'r effaith fwyaf posibl i gyflawni cyfrifoldebau statudol a nodau strategol, rheoli a monitro cyllidebau yn unol â Rheolau Sefydlog gan sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a gwerth am arian.

11. Cefnogi'r Prif Swyddog Tân i feithrin perthnasoedd adeiladol â rhanddeiliaid, staff a'r Undebau Llafur, gan ddatblygu mecanweithiau ymgynghori effeithiol. Meithrin a datblygu cydberthnasau effeithiol ag Undebau Llafur, er mwyn hwyluso gweithio mewn partneriaeth ac amgylchedd cynhyrchiol o ran cysylltiadau â gweithwyr sy'n hwyluso newid.

12. Cynrychioli'r Prif Swyddog Tân a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a chymryd rhan mewn cyfarfodydd a digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn cyfrannu at ddatblygiad y Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a hyrwyddo buddiannau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

13. Cyflawni a chynnal cymhwysedd personol mewn perthynas â swyddogaethau map rôl ac unrhyw ofynion cymwysterau proffesiynol perthnasol neu ddynodedig.

14. Cyflawni dyletswyddau eraill a all fod y ofynnol gan y Prif Swyddog Tân o bryd i'w gilydd.

**Yn ychwanegol at y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a amlinellir uchod, bydd gofyn i ddeiliad y swydd:**

1. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'u gradd a'u swydd.
2. Mynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl y gofyn.
3. Cydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.
4. Cymhwyso egwyddorion Gweithdrefn Urddas yn y Gweithle Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth wrth gyflawni'u dyletswyddau.
5. Amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl rhag niwed, gan adrodd unrhyw bryderon diogelu wrth ddefnyddio Gweithdrefn Ddiogelu'r Gwasanaeth.
6. Ufuddhau i Ddeddfwriaeth a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch a chymryd gofal rhesymol mewn perthynas â'u hiechyd a diogelwch eich hunan ac eraill.

# Y FANYLEB PERSON

**HANFODOL**

- ✓ Cymhwyster rheoli uwch perthnasol e.e. Gradd, MBA, DMS, cymhwyster rheoli ôl-raddedig neu brofiad cyfatebol.
- ✓ Gorchymyn Digwyddiad Aur Amlasiantaeth neu ICL lefel 4
- ✓ Gwybodaeth am ddeddfwriaeth a dyletswyddau statudol y gwasanaeth tân.
- ✓ Gwybodaeth am hinsawdd weithredu wleidyddol genedlaethol, rhanbarthol a lleol y gwasanaeth tân ac achub.
- ✓ Lefel uchel o ymrwymiad i GTADC yn ogystal â'r safonau personol a phroffesiynol uchaf bosib.
- ✓ Gallu dwyn pobl ar bob lefel (gan gynnwys y Prif Swyddog Tân) i gyfrif a herio sefyllfaoedd sy'n gofyn am newid yn broffesiynol
- ✓ Y gallu i weithio yn ôl targedau a dangos profiad o gymryd cyfrifoldeb llawn am reoli perfformiad pobl.
- ✓ Dealltwriaeth fanwl o'r Cod Moeseg Craidd, gan gynnal safon uchel o ymddygiad bob amser :
    - Rhoi ein cymunedau yn gyntaf
    - Uniondeb
    - Urddas a Pharch
    - Arweinyddiaeth
    - Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
    - Hanes profedig o weithredu ar lefel arweinyddiaeth weithredol.
- ✓ Gallu dangos sgiliau arweinyddiaeth ysbrydoledig, safonau moesegol personol uchel, uniondeb a'r gallu i arwain, cymell, ysbrydoli a grymuso eraill.
- ✓ Cyfathrebwr rhagorol, perswadiol, clir ac adeiladol ar bob lefel.
- ✓ Gallu i wneud penderfyniadau a chymryd cyfrifoldeb am gamau gweithredu.
- ✓ Profiad sylweddol ac arwyddocaol o reoli strategol (gan gynnwys rheoli newid) ac arwain mewn sefydliad mawr a chymhleth.
- ✓ Gallu gweithio mewn amgylchedd cymhleth a newidiol.

- ✓ Gallu meithrin perthnasoedd adeiladol â'r Undebau Llafur, trwy weithio mewn partneriaeth a chreu hinsawdd cysylltiadau cynhyrchiol â gweithwyr sy'n hwyluso newid.

- ✓ Profiad o gynllunio ac adolygu darpariaeth gwasanaethau ar lefel strategol gan alluogi pobl eraill.

- ✓ Gradd uchel o graffter gwleidyddol a hanes profedig o weithio ochr yn ochr ag amrywiaeth o randdeiliaid mewn amgylchedd sy'n sensitif yn wleidyddol

- ✓ Hanes profedig o ran cyflawni effeithlonrwydd a sicrhau gwasanaethau gwerth am arian yn ogystal â'r gallu i ddangos ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau ac eithafu'r defnydd o adnoddau.

- ✓ Dealltwriaeth o Iechyd a Diogelwch yn y gweithle ac ymrwymo i'w cynnal.

**DYMUNOL**

- ✓ Cymhwyster rheoli prosiectau a phrofiad profedig o redeg rhaglenni a/neu brosiectau.

- ✓ Profiad o arwain gweithrediad cynllun gwella HMICFRS (neu gynllun cyfwerth).

- ✓ Gallu siarad Cymraeg neu'n barod i ymrwymo i ddysgu Cymraeg

**Gofynion eraill ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus:**

- ✓ **Rhaid gallu ymgymryd â dyletswyddau yn y Grŵp Cydlynu Strategol (GCS) neu'r Ganolfan Rheoli Brys (Cymru) (CRhB(C)).**

- ✓ **Rhaid gallu cynrychioli'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar lefel strategol, mewn digwyddiadau ymgysylltiad amlasiantaeth.**

- ✓ **Rhaid gallu cyflawni dyletswyddau yn y Grŵp Cydlynu Strategol (GCS) neu'r Ganolfan Rheoli Brys (Cymru) (CRhB(C)).**

- ✓ **Rhaid gallu cynrychioli'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar lefel strategol, mewn digwyddiadau lle bu ymgysylltiad amlasiantaeth.**

- ✓ **Bydd gofyn i chi ddarparu gwasanaeth ar Rota sy'n cynnwys Gwyliau Cyhoeddus a phenwythnosau.**

**Sylwch: Bydd Gwiriadau Diogelwch yn ofynol ar gyfer y rôl hon.**

# Y BROSES YMGEISIO

1. **Dylai ymgeiswyr atodi CV cyfredol wedi'i deilwra, yn nodi eich hanes gwaith, cyfrifoldebau a chyflawniadau fel y maent yn berthnasol i'r rôl.**
2. **Dogfen ategol ar gyfer rhestr fer sy'n nodi eich atebion (gyda dim mwy na 500 gair i bob ateb) i'r pedwar cwestiwn canlynol:**

**Cwestiwn 1: Effaith Bersonol** - Nodwch sut rydych chi wedi meithrin ymddiriedaeth a hygrededd ar bob lefel i hyrwyddo newid a thrawsnewidiad.

**Cwestiwn 2: Arweinyddiaeth Eithriadol** –Nodwch sut rydych chi wedi datblygu timau sy'n perfformio'n dda iawn a gwella perfformiad drwy gyfnod o newid ac ansicrwydd.

**Cwestiwn 3: Darparu Gwasanaeth** – Nodwch sut rydych chi wedi gosod cyfeiriad strategol clir o fewn sefydliad a sut rydych chi wedi ymgysylltu â phobl yn y daith.

**Cwestiwn 4: Effeithiolrwydd Sefydliadol** – Nodwch sut rydych chi wedi cymryd camau i ddeall effeithiolrwydd sefydliad a pha gamau a gymerwyd gennych i wedi hynny.

Cynhelir y cyfweliad panel terfynol gyda'r panel dethol llawn wedyn.

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau | **17eg Gorffennaf 2025** |
| Panel ymgysylltu â rhanddeiliaid | **14eg Awst 2025** |
| Gwahoddiad i gyfarfod â'r Prif Swyddog Tân a'r Comisiynwyr | **14eg Awst 2025** |
| Cyfweliad | **15fed Awst 2025** |

# SUT I YMGEISIO

**Ymgeiswyr Allanol**

Mewngofnodwch i'n gwefan yn: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi-gwag

Dewiswch y rôl o'r 'Swyddi Gwag Presennol' a chliciwch ar y ddolen ar gyfer ein system e-recriwtio.

Sicrhewch fod pob adran o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

**Ymgeiswyr Mewnol**

Mewngofnodwch i People XD/Core a llywio i 'swyddi gweigion cyfredol' i ddewis y swydd berthnasol. Sicrhewch fod pob adran o'r cais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

**Pob Ymgeisydd**

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, megis print bras neu gefndir gwyn neu liw, neu fel arall angen ffurflen gais bapur, cysylltwch â'n tîm Recriwtio yn recriwtio@decymru-tan.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01443 232300 a byddwn yn ymdrechu i helpu cyn gynted â phosibl.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

# **GWYBODAETH YCHWANEGOL**

**Gwiriadau Recriwtio Allanol**

**Bydd yr holl ymgeiswyr allanol yn destun y gwiriadau recriwtio canlynol cyn eu penodi:**

- Gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Gwiriadau hawl i weithio.
- Gwiriadau meddygol, iechyd a ffitrwydd.
- Gwiriadau trwydded yrru.
- Gwiriadau Tystlythyron.

## Cod Moeseg Craidd CCPT

**RHOI EIN CYMUNEDAU YN GYNTAF:** Rydym yn blaenoriaethu lles y cyhoedd, y gymuned a defnyddwyr gwasanaeth.




**UNIONDEB:** Rydym yn gweithredu gydag uniondeb, gan gynnwys bod yn agored, yn onest ac yn gyson ym mhopeth a wnawn.

**URDDAS A PHARCH:** Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol ar sail tystiolaeth, heb wahaniaethu na thuedd.

**ARWEINYDDIAETH:** Rydym i gyd yn fodelau rôl cadarnhaol, bob amser yn dangos hyblygrwydd ac arweinyddiaeth hydwyth. Rydym i gyd yn atebol am bopeth a wnawn ac yn herio pob ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safonau uchaf.

**CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIAD:** Rydym yn cydnabod ac yn hyrwyddo gwerth CAC yn barhaus o fewn GTADC a'r cymunedau ehangach yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn sefyll yn erbyn pob math o wahaniaethu, yn creu cyfle cyfartal, yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn meithrin cysylltiadau da ac yn dathlu gwahaniaeth.

**Dyma'r sylfaen ar gyfer ein gwerthoedd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a bydd yn ein helpu i greu amgylchedd sy'n groesawgar, yn oddefgar ac yn ddiogel, heb unrhyw le i ymddygiadau amhriodol a chamau gweithredu sy'n bygwth, amharchu neu'n dychryn eraill**

.

# BUDDION

**Gwyliau Blynyddol** – Lwfans gwyliau blynyddol hael.

**Rhaglen Cymorth i Weithwyr -** Mae'r RhGG yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i weithwyr gael mynediad iddo pryd bynnag y bo angen.

**Vivup –** Darparwr buddion gweithwyr sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n cynnig pentwr o fanteision ac arbedion iechyd a lles i'r holl staff ar draws nifer o frandiau mawr.

Mae rhai o fanteision y platfform hwn yn cynnwys:

- **Cynllun Seiclo i'r Gwaith**
- **Cynllun ceir Tusker**
- **Gostyngiad nwyddau i'r cartref a nwyddau electroneg**

**Oriau Gwaith Hyblyg –** Mae staff corfforaethol yn gallu gweithio oriau hyblyg. Gydag oriau craidd o 10yb – 12yp a 2yb – 3yp; Gallwch gwblhau balans eich oriau unrhyw bryd rhwng 7yb a 7yp.

**Dysgu a Datblygu –** Mae GTADC yn cydnabod bod gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn allweddol i lwyddiant. Gyda Chanolfan Hyfforddi bwrpasol ym Mhorth Caerdydd a thimau hyfforddi arbenigol, mae digon o gyfleoedd i dyfu a datblygu sgiliau newydd.

**Campfa** - Ble bynnag yr ydych wedi'ch lleoli fel gweithiwr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, mae mynediad i'n cyfleusterau campfa ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim.

disability confident COMMITTED

**Ymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd** - Mae ein Hymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd yn monitro lefelau ffitrwydd staff gweithredol. Gallant hefyd gynnig cyngor iechyd a ffitrwydd i bob gweithiwr ar gais.

**Elusen Diffoddwyr Tân** - Gall pob gweithiwr, ynghyd â'u dibynyddion, fod yn fuddiolwyr yr elusen. Mae'r elusen yn darparu cymorth iechyd a lles i holl gymuned y Gwasanaeth Tân.

**Parcio Ceir –** Nid yw GTADC yn codi tâl am barcio yn unrhyw un o'i safleoedd.

**Iechyd Galwedigaethol -** Nod yr Uned Iechyd Galwedigaethol yw cynyddu effeithlonrwydd iechyd a lles staff i'r eithaf a lleihau'r risgiau y mae staff yn agored iddynt o ganlyniad i arferion gwaith a'r amgylchedd.

**Pensiwn –** Mae staff cymorth yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn â buddion penodedig. Mae cyfraniadau gweithwyr yn seiliedig ar eich cyflog.

**Chwaraeon a Chymdeithasol –** Mae ein hadran chwaraeon a chymdeithasol yn dod â gweithwyr ynghyd o bob adran. Mae ffotograffiaeth, sgïo, crwydro, seiclo, pêl-droed, rygbi, syrffio a golff yn rhai o'r diddordebau a rennir.

**Cyrsiau Cymraeg –** Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle ac yn cynnig mynediad i bob gweithiwr i gyrsiau Cymraeg ar ystod o lefelau i weddu i bob angen.

**Hyderus o ran Anabledd** – Rydym yn falch o fod yn Gyflogwr Ymrwymedig Hyderus o ran Anabledd ardystiedig

We are a Living Wage Employer

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

## South Wales Fire and Rescue Service

Recruitment & Retention Team
Fire Service Headquarters
Forest View Business Park
Llantrisant
CF72 8LX

Recruitment Line – 01443 232200
recruitment@southwales-fire.gov.uk

**SCAN ME**

www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us